



AQA	City & Guilds	CCEA	OCR	Pearson	CBAC
-----	---------------	------	-----	---------	------

Cydsyniad ymgeiswyr a diogelu graddau

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ategu cyhoeddiad y *CGC Canllaw i broses apeliadau cyrff dyfarnu*, cyfres arholiadau Mehefin 2020. Mae'n rhoi eglurder pellach i ganolfannau ar gydsyniad ymgeiswyr a diogelu graddau.

Apêl ar ran carfan gyfan

Os byddwch yn cyflwyno apêl ar ran carfan gyfan (h.y. pob ymgeisydd a gofrestrwyd ar gyfer pwnc penodol), nid oes angen i chi gael cydsyniad ymgeiswyr. Ni fydd y graddau yn mynd i lawr o ganlyniad i'r apêl.

Os nodir gwall yn ystod yr apêl, bydd y corff dyfarnu yn cywiro pob gradd ar gyfer yr ymgeiswyr hynny lle mae'r radd newydd yn uwch na'r radd bresennol.

Ymgeiswyr penodol o fewn carfan

Os byddwch yn cyflwyno apêl ar ran ymgeiswyr penodol o fewn carfan, **rhaid** sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gwybod y gall eu graddau fynd i fyny neu i lawr. **Rhaid** i chi gael cydsyniad ysgrifenedig gan bob ymgeisydd rydych yn bwriadu ei restru yn y cais am apêl.

Os bydd y corff dyfarnu, yn ystod yr adolygiad cychwynnol, yn nodi gwall sy'n effeithio ar y graddau a ddyfarnwyd i ymgeiswyr nad ydynt wedi'u restru yn y cais, ac na wnaethant gydsynio i'r apêl, ni fydd y corff dyfarnu yn cywiro graddau oni bai bod y radd newydd yn uwch na'r radd bresennol.

Gwallau gyda Graddau Asesu Canolfannau a chyflwyno data trefn restrol

Os ydych chi wedi nodi gwall yn eich Graddau Asesu Canolfannau a chyflwyniad data trefn restrol, er enghraifft os ydych chi wedi trawsosod dau rif ymgeisydd, a gall cywiro'r gwall hwn arwain at ostwng un neu fwy o raddau ymgeiswyr, nid oes angen i unrhyw ymgeisydd y mae'n bosibl y bydd ei radd yn mynd i lawr, gydsynio i'r apêl. Gallwch gyflwyno apêl ar ran, a chyda chydysyniad, yr ymgeiswyr hynny a allai gael gradd uwch yn unig.